CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	1.11.2022
Teitl:	Darpariaeth Breswyl er mwyn Cefnogi a Gofalu am Blant a Phobl Ifanc yng Ngheredigion
Pwrpas yr adroddiad:	I gael sêl bendith mewn egwyddor i'r syniad fod y model Llety Diogel i Blant yng Ngheredigion yn cael ei ehangu i gwmpasu mwy o ddarpariaethau preswyl bach ledled y Sir i gwrdd ag anghenion presennol plant y sir a'u hanghenion yn y dyfodol.
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant

Y Cefndir

Mae'r papur hwn yn dilyn o gyfarfod a phenderfyniadau'r Cabinet ar 7/12/21. Mae'r papurau cefndirol a geir yn yr adroddiad yn rhoi'r cefndir llawn i'r anghenion a nodir a'r cynlluniau ynghylch darparu Llety Diogel i Blant yng Ngheredigion.

Y Sefyllfa Bresennol

Mae cam un y prosiect yn mynd rhagddo'n dda gyda thîm cynllun y prosiect ynghlwm wrth gynllunio ac uwchraddio'r cyfleusterau. Mae Rheolwr Cofrestredig y gwasanaeth wedi cael ei recriwtio ac mae wedi bwrw ati eisoes i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r Rheolwr Cofrestredig wedi bod yn rhan sylfaenol o gefnogi'r anghenion cymhleth presennol a'r ddarpariaeth frys ynghyd â datblygu'r model busnes a gweithredol ar gyfer y ddarpariaeth newydd.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad i'r Cabinet ar 7/12/21 mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion wedi cynyddu'n fawr. Mae gwaith yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd i edrych ar y rhesymau a nodi unrhyw batrymau a bydd hyn yn bwydo i'r gwaith o ddatblygu strategaethau i atal neu leihau yr angen am i blentyn ddod i mewn i ofal neu barhau mewn gofal.

Yn cyd-fynd â'r gwaith hwn y mae'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Lleoli a Chomisiynu a Strategaeth Ymgysylltu a Recriwtio ym maes Maethu. Bydd hyn yn rhan hanfodol o sicrhau fod cymysgedd o leoliadau ar gael ledled y sir.

Mae'r uchod yn gofyn am gynlluniau tymor byr, tymor canolig a hirdymor i roi mwy o sefydlogrwydd a digon o gyfleoedd lleoli yn yr ardal leol. Er mwyn diwallu'r angen am ddarpariaeth breswyl, y cynnig yw ail-ddefnyddio dau eiddo arall sydd eisoes yn rhan o ystâd y gofal cymdeithasol a hynny er mwyn ategu'r cynllun presennol sy'n cael ei ddatblygu.

Ar gyfer y ddau gyfleuster ychwanegol, byddwn yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, sef y rheoleiddiwr, i'w cofrestru er mwyn cynnig darpariaeth breswyl hyblyg - gyda gofal a chymorth - a fydd yn gallu diwallu anghenion cymhleth ehangach y boblogaeth. Bydd y ddarpariaeth yn bodloni gweledigaeth strategol y Strategaeth Gydol Oes a Llesiant.

Bydd Bwrdd Prosiect yn cael ei sefydlu er mwyn tynnu arbenigedd ynghyd o bob cwr o'r awdurdod gyda'r bwrdd hwn yn bwydo i strwythur llywodraethu ehangach y model Gydol Oes a Llesiant.

Mae hwn yn ddull arloesol a'r negeseuon cynnar a ddaw gan AGC yw y byddent yn cefnogi'r ceisiadau cofrestru hyn i ddatblygu ystod ehangach o leoliadau hyblyg i gwrdd â'r angen lleol ar draws yr oedrannau.

Mae angen datblygu yn go gyflym i sicrhau bod gan yr awdurdod fynediad at ddarpariaeth frys, yn enwedig wrth inni wynebu misoedd y gaeaf. Yn allweddol hefyd, bydd yn sicrhau bod plant yn parhau i gael addysg yn lleol ac yn cadw cyswllt rheolaidd â'u teulu a'u ffrindiau. Ynghyd â hyn fe fydd arbedion o ran amser a chostau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gorfod teithio ledled y DU i gwrdd â'u gofynion statudol. Canlyniad y model hwn fydd lleihau'r nifer a leolir y tu allan i'r sir gan sicrhau model o ofal a chefnogaeth y gellir ei ddarparu yn lleol. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion presennol ein plant a'n pobl ifanc a'u hanghenion yn y dyfodol.

Mae achos busnes wrthi'n cael ei ddatblygu i sicrhau ein bod yn cyflawni model refeniw a chyfalaf cadarn gan wneud y mwyaf o'r cyfleoedd fydd ar gael am arian rhanbarthol a chenedlaethol.

Bwriedir mynd ag adroddiad/cyflwyniad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn nechrau 2023.

Y Cynnig a'r argymhellion

- Cytuno i ehangu'r model Gydol Oes a Llesiant i gynnwys nifer fwy o ddarpariaethau preswyl bach ar draws y Sir i ateb y galw presennol.

- Cefnogi'r egwyddor o gyflwyno ceisiadau i Arolygiaeth Gofal Cymru i gofrestru'n hyblyg.

- Cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau Iachach a'r Grŵp Llywio yn nechrau 2023.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**A wnaed Asesiad Effaith Integredig?** **Os naddo, nodwch pam**	Ar y gweill ar hyn o bryd ar y cyd â'r achos busnes.

	Crynodeb: **Hirdymor:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:** **Integreiddio:**
Argymhellion:	**1. I gael sêl bendith mewn egwyddor i'r syniad fod y model Llety Diogel i Blant yng Ngheredigion yn cael ei ehangu i gwmpasu mwy o ddarpariaethau preswyl bach ledled y Sir i gwrdd ag anghenion presennol y boblogaeth a'r anghenion yn y dyfodol. Drwy hyn, creu model llety preswyl ar sail Gydol Oes.** **2. Cefnogi'r egwyddor o gyflwyno ceisiadau i Arolygiaeth Gofal Cymru i gofrestru'n hyblyg.**
Rheswm dros y penderfyniad:	• **I wneud y mwyaf o'r lleoliadau yn y Sir;** • **I gefnogi plant a phobl ifanc i gadw eu cysylltiadau lleol a'u hunaniaeth leol;** • **I osgoi gwario ar leoliadau y tu allan i'r sir;** • **I fuddsoddi mewn gwasanaethau a darpariaeth yn lleol ar gyfer plant a theuluoedd.**
Trosolwg a Chraffu:	Cymunedau Iachach
Fframwaith Cyfreithiol a Pholisi:	• Strategaeth Gydol Oes a Llesiant Ceredigion 2021-2025 • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 • Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
Blaenoriaethau Corfforaethol:	1. Creu cymunedau gofalgar ac iach. 2. Darparu'r dechreuad gorau mewn bywyd a galluogi dysgu ym mhob oed.
Goblygiadau Ariannol a Chaffael:	• Bydd y gofynion Cyfalaf a Refeniw yn dod yn eglur fel rhan o'r achos busnes.
Goblygiadau Cyfreithiol:	• Rheoli Cynllunio ac Adeiladu • Deddf Diogelwch Tân 2021
Goblygiadau Staffio:	• Mae'r achos busnes ar y gweill ar y cyd â'r Gofynion Rheoleiddiol.
Goblygiadau o ran Eiddo/ Asedau:	• Ailddefnyddio eiddo presennol. • Angen uwchraddio er mwyn bodloni'r gofynion ynghylch rheoleiddio a chofrestru.

Risg(iau):	• Methu â diwallu anghenion presennol y boblogaeth o ran gofal a chymorth. • Goblygiadau parhaus i'r awdurdod o ran refeniw.
Pwerau Statudol:	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Papurau Cefndirol:	Agenda Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer cyfarfod y Cabinet ar Ddydd Mawrth, 7fed Rhagfyr, 2021 am 10.00am
Atodiadau:	Dim
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal
Swyddog Adrodd:	Nerys Lewis, Rheolwr Corfforaethol- Gwasanaethau Uniongyrchol, Porth Gofal
Dyddiad:	11.10.2022